Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ysbyty Coed Celyn

## Dyddiad y gweithgarwch: 17 Mawrth 2021

Dyddiad cyhoeddi: 7 Mai 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-80195-369-6



WG42607 © Hawlfraint y Goron 2021

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ysbyty Coed Celyn fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Uned adfer yw Coed Celyn, ar gyfer oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Gall yr ysbyty ddarparu llety i hyd at wyth claf, ac mae'n rhan o ddarpariaeth Gwasanaethau Arbenigol ym maes Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward ddydd Mercher 17 Mawrth 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?

- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?

- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod Ysbyty Coed Celyn wedi cau ym mis Ebrill 2020, ar ddechrau pandemig COVID-19, oherwydd pryderon ynghylch diffyg awyru digonol yng nghoridor y llawr cyntaf. Yn dilyn ymgyngoriadau ag arweinydd iechyd a diogelwch y bwrdd iechyd a'r swyddog tân, rhoddwyd mesurau ar waith i sicrhau bod y coridor yn cael ei awyru'n well drwy osod dyfeisiau atal sy'n cael eu hactifadu gan sain i'r drysau tân yng nghoridor y llawr cyntaf. Ailagorodd Coed Celyn ar 18 Medi 2020.

Dywedwyd wrthym fod uchafswm y bobl sy'n cael mynd i mewn i/aros mewn ystafell ar yr un pryd wedi'i nodi'n glir ar bob un o'r ystafelloedd cymunedol. Mae systemau un ffordd wedi cael eu rhoi ar waith yng nghoridor y llawr cyntaf i leihau'r tebygolrwydd y bydd cleifion a staff yn dod i gysylltiad agos â'i gilydd yn y lle cul.

Dywedwyd wrthym, oherwydd cynllun yr adeilad, na fu'n bosibl cynnal ymweliadau dan do â theuluoedd a ffrindiau'r cleifion. Fodd bynnag, gellir trefnu defnyddio un o'r ystafelloedd cyfarfod ar gyfer ymweliadau, mewn adeilad cysylltiedig sy'n gartref i Dîm Adfer Cymunedol y bwrdd iechyd, gan fod hyn yn ei gwneud yn bosibl i gadw pellter cymdeithasol a chydymffurfio â'r asesiad risg ar gyfer ymweliadau. Dywedwyd wrthym fod arian ar gael, a bod gasebo pren wedi cael ei brynu, a gaiff ei osod yn yr ardd er mwyn ei gwneud yn bosibl i bobl gynnal ymweliadau awyr agored, pan fydd y cyfyngiadau yn caniatáu.

Dywedwyd wrthym fod dyfais llechen electronig ar gael i'r cleifion ei defnyddio, a fenthyciwyd drwy'r bwrdd iechyd, er mwyn iddynt gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae'r staff hefyd yn cefnogi'r cleifion i ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain er mwyn cadw mewn cysylltiad â'u hanwyliaid.

Dywedwyd wrthym fod gan bob claf raglen adfer unigol sy'n seiliedig ar ei anghenion. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau symud wedi cael effaith sylweddol ar y gweithgareddau sydd ar gael, gan fod y rhan fwyaf o raglenni adfer y cleifion yn canolbwyntio ar integreiddio cymunedol a manteisio ar grwpiau, gweithgareddau a chyfleoedd eraill yn y gymuned. Mae mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i wneud iawn am hyn drwy ddarparu mwy o grwpiau ar y safle a gaiff eu harwain gan staff Therapi Galwedigaethol, nyrsio a chymorth gofal iechyd.

Mae'r cleifion wedi cael eu cefnogi i ddelio â'r newid drwy gyfarfodydd dyddiol er mwyn

sicrhau eu bod yn deall y newidiadau i driniaethau a'r cyfyngiadau.

Cawsom gopïau o'r asesiad o iechyd a diogelwch a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2020, sy'n dangos cyfradd gydymffurfio uchel. Rhoddwyd copi o'r asesiadau risg amgylcheddol cyffredinol a gwblhawyd ym mis Gorffennaf a mis Awst 2020 inni hefyd, ynghyd â chopi o'r asesiad risg pwyntiau clymu diweddaraf, a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2021. Mae'r rhain yn dangos bod y sefydliad yn gwneud pob ymdrech i sicrhau iechyd a diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr drwy archwiliadau ac asesiadau risg cadarn a chynhwysfawr.

Dywedwyd wrthym na chaiff ymyriadau ataliol eu defnyddio yn rheolaidd i reoli ymddygiad heriol. Rhoddwyd data inni yn ymwneud ag achosion o ymddygiad heriol dros y pum mis diwethaf. Mae'r data hyn yn dangos na cheir llawer o ddigwyddiadau o'r fath a'u bod yn cael eu rheoli'n briodol, a bod prosesau cofnodi, adrodd ac adolygu cadarn ar waith gan y bwrdd iechyd.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw achosion a gadarnhawyd o COVID-19 ymhlith y staff na'r grŵp cleifion ar hyn o bryd, a bod pob aelod o'r staff a phob claf wedi cael cynnig brechiad.

Cawsom gopïau o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys polisïau a chanllawiau penodol ar gyfer COVID-19. Gwelsom fod y rhain yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf ynghylch COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod gan yr ysbyty gysylltiadau da â nyrsys rheoli heintiau arbenigol y bwrdd iechyd ac adran Iechyd Galwedigaethol y bwrdd iechyd er mwyn cael arweiniad a chyngor ar reoli COVID-19 a materion eraill yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau.

Dywedwyd wrthym fod archwiliadau manwl o weithdrefnau golchi yn cael eu cynnal bob mis.

O'r dogfennau a gyflwynwyd, a'n trafodaethau â rheolwr y ward, gwelsom y byddai unrhyw

glaf a gaiff ddiagnosis o glefyd heintus yn cael ei reoli'n briodol. Pe bai angen i glaf ynysu oherwydd diagnosis o COVID-19 neu amheuaeth fod ganddo COVID-19, byddai'n cael gofal yn un o'r tair ystafell wely ddynodedig er mwyn cyfyngu ar unrhyw risg o groesheintio.

Dywedwyd wrthym fod pob polisi iechyd a diogelwch wedi cael ei ddiweddaru. Mae asesiad risg sy'n benodol i COVID-19 wedi cael ei ddatblygu sy'n trafod cadw pellter cymdeithasol, ymweliadau a rheoli cleifion sydd â symptomau o COVID-19/wedi cael prawf positif am COVID-19. Caiff cyflenwadau o PPE eu harchwilio bob nos i sicrhau bod digon ar gael, a chaiff y cleifion eu hannog i wisgo PPE.

Dywedwyd wrthym y caiff gohebiaeth gan y bwrdd iechyd sy'n ymwneud â COVID-19 ei rhannu â'r staff drwy e-bost. Cynhelir sgrymiau diogelwch dyddiol i roi cyfle i bob aelod o'r staff godi unrhyw bryderon a thrafod materion sy'n ymwneud â datblygiad y gwasanaeth, cynllunio ar gyfer COVID-19 a darparu gofal. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i staff rannu syniadau ac argymhellion ynglŷn â sut y gallwn wella'r amgylchedd a phrosesau ar gyfer y cleifion a'r staff. Cynhelir cyfarfod boreol â'r cleifion bob dydd hefyd, sy'n rhoi'r cyfle iddynt ofyn cwestiynau a chael gwybod am y canllawiau diweddaraf. At hynny, mae ffeil gwybodaeth am COVID-19 ar gael i'r staff sy'n cynnwys asesiadau risg a chanllawiau perthnasol.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal â phob claf cyn iddo gael ei dderbyn i Coed Celyn, er mwyn trafod ei ddealltwriaeth o COVID-19 a'r hyn a fyddai'n digwydd pe bai'n dangos symptomau. Caiff hyn ei adlewyrchu wedyn mewn cynllun gofal sy'n ymwneud â COVID-19 yn benodol. Caiff y cynllun gofal ei drafod a'i adolygu yn ystod cyfarfodydd wythnosol â'r cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn deall o hyd ac yn barod i gydweithredu.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys modiwlau penodol ar reoli COVID-19.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym na chynhaliwyd archwiliad rheoli heintiau yn ysbyty Coed Celyn yn ddiweddar. Mae rheolwr y ward wedi uwchgyfeirio'r mater hwn, ac mae'n aros am ymateb. Rhaid i'r bwrdd iechyd drefnu i archwiliad rheoli heintiau gael ei gynnal yn ysbyty Coed Celyn cyn gynted ag y bernir ei bod yn ddiogel i wneud hynny yn unol â chanllawiau COVID-19.

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, a'u bod yn gallu cysylltu â gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol eraill pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

O'r trafodaethau a gawsom â rheolwr y ward, daeth yn glir bod ganddo ddealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau a phrosesau uwchgyfeirio ac adrodd yr ysbyty. Dywedodd rheolwr y ward wrthym ei fod yn cael cefnogaeth dda iawn gan ei reolwr llinell uniongyrchol ac uwch-dîm rheoli'r sefydliad ehangach, a bod cyngor ac arweiniad ar gael yn ôl y gofyn.

Cawsom gopi o ddogfen gweithdrefn safonol Coed Celyn, a gafodd ei chwblhau cyn i'r ysbyty ail-agor. Mae'r ddogfen yn trafod y trefniadau ar gyfer rheoli COVID-19, gan gyfeirio'n benodol at addasiadau i'r amgylchedd a gweithdrefnau, cynnal diogelwch y staff a'r cleifion, y weithdrefn ar gyfer derbyn cleifion i'r ysbyty a'u rhyddhau o'r ysbyty, y weithdrefn ar gyfer cleifion sy'n dangos symptomau o COVID-19 a chymorth i'r staff a'u llesiant.

Dywedwyd wrthym fod tîm amlddisgyblaethol gan yr ysbyty sy'n cynnwys nyrsys iechyd meddwl, gweithwyr cymorth gofal iechyd, therapydd galwedigaethol, cydgysylltydd gweithgareddau, seiciatrydd ymgynghorol a seicolegydd.

Roedd y wybodaeth a roddwyd inni yn dangos bod un swydd wag Band 5 yn yr ysbyty ar yn o bryd. Dywedwyd wrthym nad yw'r ysbyty yn bwriadu hysbysebu'r swydd hon ar hyn o bryd gan y bydd dwy nyrs breceptoriaeth[1] yn ymuno â'r tîm ym mis Ebrill a mis Mai 2021. Mae'r ddwy nyrs wedi enwi Coed Celyn fel y gweithle a ffefrir ganddynt ar ôl cwblhau lleoliadau yn yr ysbyty, ac ar ôl gweithio sifftiau banc yno hefyd.

Dywedwyd wrthym nad yw'r ysbyty yn defnyddio staff asiantaeth yn aml am fod aelodau parhaol o'r staff yn barod i weithio sifftiau ychwanegol lle bo angen. Mae hyn yn darparu lefel o barhad o ran y gofal a ddarperir ac yn sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â chynllun yr ysbyty a'i arferion gweithio, a'u bod hefyd yn gyfarwydd ag anghenion gofal unigol y cleifion.

Mae Nyrsys Iechyd Meddwl Cofrestredig a dau Weithiwr cymorth gofal iechyd yn gweithio yn ystod y dydd. O ddydd Llun i ddydd Gwener mae rheolwr y ward, dirprwy reolwr y ward, therapydd galwedigaethol a chydgysylltydd gweithgareddau hefyd yn gweithio. Mae un Nyrs Iechyd Meddwl Cofrestredig ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd yn gweithio yn ystod y nos. Dywedwyd wrthym fod lefelau dibyniaeth y cleifion yn cael eu hasesu'n rheolaidd a bod staff ychwanegol yn cael eu defnyddio pe bai mwy o alw.

Gwnaethom dderbyn ystadegau hyfforddiant a gwelsom fod y gyfradd yn uchel ar gyfer hyfforddiant gorfodol.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol allanol, wedi parhau a bod yr adolygiadau a drefnwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 wedi'u cynnal o fewn yr amserlenni rhagnodedig. Lle na fu modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, defnyddiwyd galwadau ffôn i sicrhau bod y cleifion yn parhau i allu cael gafael ar wasanaethau proffesiynol allanol, gan gynnwys gwasanaethau eirioli.

[1] Proses i arwain a chefnogi pob nyrs newydd gymhwyso i bontio o fod yn fyfyriwr ac i ddatblygu ei hymarfer ymhellach yw preceptoriaeth.

Dywedwyd wrthym fod caniatâd i gleifion fod yn absennol yn cael ei reoli yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ac asesiadau risg unigol.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Coed Celyn

Dyddiad y gweithgarwch:17 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r bwrdd iechyd drefnu i archwiliad rheoli heintiau gael ei gynnal yn ysbyty Coed Celyn cyn gynted ag y bernir ei bod yn ddiogel i wneud hynny yn unol â chanllawiau COVID-19. | Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Trefnwyd archwiliad rheoli heintiau ar gyfer 15/04/2021. | Pennaeth Nyrsio, RSS/SCC | Ebrill 2021 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: William Haydn Williams

Dyddiad: 31/03/2021